**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 4 Ebrill 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

*Aelodau*

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Eleanor Burnham | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc y Pwyllgor |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau**

Lorraine Barrett

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Derek Adams | Pennaeth, Addysg Bellach ac Uwch |
| Andrew Felton | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd;
ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gareth Jones Athro Cofrestredig; ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd Ms Eleanor Burnham AC, Aelod o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn aelod newydd o’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Yr oedd Ms Burnham yn cymryd lle Ms Christine Humphreys, yr oedd ei chyfraniad wedi’i werthfawrogi gan y Pwyllgor.

**Eitem Un: Adolygiad Polisi - Addysg Uwch - Trafodaeth Thema Allweddol - Maint a Ffurf - Cyflwyniadau gan yr Athro Maxwell Irvine a’r Athro David Warner, ar ran Addysg Uwch Cymru, gyda’r Athro Mervyn Jones, Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Cymru, Bangor.**

***Papur: ELL 07-01(p.1) ac ELL 07-01(p.2)***

1. Gwnaeth yr Athro Irvine, Is-ganghellor a Phrifathro Prifysgol Birmingham sylwadau ar sail ei bapur. Siaradodd yr Athro David Warner, Prifathro a Phrif Weithredwr Athrofa Abertawe, ar sail ei bapur hefyd.

2. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Mynegodd yr Aelodau bryder, o ystyried cyflymder y newid yn y sector Addysg Uwch yn y DU ar

hyn o bryd, ynghylch a allai Cymru barhau â'r status quo. Dywedodd yr Athro Irvine ei fod o'r farn y byddai'n mynd yn anodd i Gymru gynnal/datblygu sefydliadau a oedd yn gynrychioladol o lefelau uwch o ddarpariaeth Addysg Uwch pe bai'n parhau â'r status quo; byddai'n anodd recriwtio staff o safon uchel a darparu cyfleusterau o safon uchel. Yr oedd gan Gymru sefydliad lefel uchel eisoes ond yr oedd yn bosibl y byddai'r Ymarfer Asesu Ymchwil yn cynyddu'r galwadau ar sefydliadau yn y DU yn ei chyfanrwydd .

- Bu rhywfaint o drafodaeth mewn perthynas â sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ac a oedd o faint critigol digonol i'w galluogi i wneud y gorau o'u cyfraniadau i anghenion Cymru; mewn cysylltiad ag ehangu mynediad, ymchwil a chreu cyfoeth. Hysbysodd yr Athro Irvine y Pwyllgor y byddai angen tua 15,000 i 20,000, yn y sector Addysg Uwch yn y DU, i gynnal màs critigol. Yr oedd y sefydliadau Addysg Uwch yn gyfranwyr gwerthfawr at ddatblygu economaidd: gallent ddenu buddsoddiad gan fusnesau/rhaglenni rhyngwladol mawr a oedd yn ceisio datblygiadau mawr. Drwy eu henw da a'u maint, gallai sefydliadau Addysg Uwch ddenu arian masnachol/ ymchwil. Nid oedd yn glir a oedd y sefydliadau yng Nghymru yn cwrdd â'r gofynion am ehangu mynediad ond yr oedd angen pendant i ymateb i anghenion/gofynion cwsmeriaid (myfyrwyr).
- Holodd yr Aelodau yr Athro Irvine am ei safbwynt ar fater cyfuniadau, sut y gellid eu rhoi ar waith a'r goblygiadau ar ôl hynny. Atgoffaodd yr Athro Irvine y Pwyllgor bod Prifysgol Birmingham a Phrifysgol Aston wedi bod yn ystyried cyfuno. Yn ddiweddar iawn, yr oedd Cyngor Prifysgol Aston wedi penderfynu peidio â mynd ymlaen â'r cyfuniad arfaethedig hwn. Y rhesymau posibl pam yr oedd rhai cyfuniadau'n methu gweithio oedd unigolion, personoliaethau a diffyg blaengynllunio. Rhaid oedd cydnabod bod unigolion yn bwysig yn y penderfynu ar y diwrnod. Wrth ystyried modelau Addysg Uwch dramor, fel model Wisconsin, y rhoddwyd cyhoeddusrwydd mawr iddo, yr oedd yn rhaid bod yn ofalus wrth ystyried rhai elfennau: a oedd sefydliadau'n gynhwysol mewn ymchwil neu'n cynnig cynlluniau gradd eang; efallai na fyddai rhai sefydliadau'n gallu cynnig dim ymhellach na gradd Meistr; efallai na fyddai sefydliadau eraill yn gallu cynnig dim ymhellach na gradd israddedig/gradd gyntaf ac efallai na fyddai rhai sefydliadau oddi mewn i fodel o'r math hwn, o'u hintegreiddio mewn system Addysg Uwch sydd yn bod, yn meddu ar unrhyw bwerau dyfarnu gradd o gwbl. Nid oedd modd trosglwyddo model Wisconsin yn rhwydd i wledydd eraill.
- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch pa fframwaith a fyddai'n fwyaf priodol i'r sector Addysg Uwch yng Nghymru yn y dyfodol. Dywedodd yr Athro Irvine ei fod yn edmygu model Addysg Uwch Wisconsin gan ei fod wedi'i ariannu gan y dalaith, yr oedd gan bob sefydliad oddi mewn i'r system raddau helaeth o ymreolaeth ac yr oedd cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y dalaith a'r gwahanol sefydliadau. Yr oedd yn holl bwysig cadw ymreolaeth pob sefydliad Addysg Uwch unigol yng Nghymru (pa bynnag fodel a ystyrid). Dylid hybu amrywiaeth rhwng sefydliadau.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Warner, gan gyfeirio at fodel Wisconsin, a ellid defnyddio amrywiaeth y gwahanol genadaethau a'r pellterau daearyddol rhwng y sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i sicrhau amrywiaeth a hefyd i gwrdd ag anghenion myfyrwyr. Cydnabu'r Athro Warner nad oedd Addysg Uwch Cymru wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i fodel Wisconsin ond ategodd na ddylid mewnforio modelau o wledydd eraill a'u cymhwyso at y sector Addysg Uwch yng Nghymru. Nododd yr Athro Warner fod model Wisconsin wedi dechrau o safle 'maes glas' ac nid oedd ganddo'r broblem o ymgorffori amrywiaeth o sefydliadau a oedd yn bodoli eisoes gydag arbenigedd a threftadaeth amrywiol. Yr oedd pob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru dros 100 mlwydd oed. Ychwanegodd yr Athro Warner fod rhai elfennau ym model Wisconsin na ellid eu trosglwyddo'n rhwydd i Gymru; er enghraifft, byddai'n annerbyniol pe na bai modd cael gradd doethur yng ngogledd Cymru.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Irvine wneud sylw am yr amrywiaeth o sefydliadau a'r amrywiaeth o genadaethau sefydliadau wrth helpu i gyflawni amcanion yng Nghymru a'r tu hwnt. Yr oedd yr Athro Irvine yn gryf o blaid yr angen am adrannau arbenigol yn y sector Addysg Uwch

yng Nghymru (e.e. cerddoriaeth). Yr oedd yn holl bwysig bod y sector yn cynnal portffolio eang o ddoethuriaethau ledled Cymru. Yr oedd gan Gymru ysgol feddygol genedlaethol fawr ei pharch eisoes ond ni ellid atgynhyrchu hynny ledled Cymru. Ychwanegodd yr Athro Mervyn Jones fod model Wisconsin yn ymgorffori patrwm hierarchaidd.

- Holodd y Cadeirydd onid oedd modd gwneud cwrs gradd doethur ym mhob sefydliad Addysg Uwch ledled Cymru. Atebodd yr Athro Warner fod yr holl sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru'n cynnig graddau doethur, ond na allai pob sefydliad gynnig gradd doethur ym mhob pwnc.
- Cododd y Pwyllgor y mater o sut y gellid cynnwys colegau Addysg Bellach orau oddi mewn i fframwaith Addysg Uwch yng Nghymru yn y dyfodol. Hysbysodd yr Athro Irvine y Pwyllgor mai ef oedd Cadeirydd Cyfathrebu Systemau Gwybodaeth ar y Cyd a oedd yn gyfrifol am y seilwaith TGCh yn y sector Addysg Uwch. Yn Ebrill 2000, daeth Cyfathrebu Systemau Gwybodaeth ar y Cyd yn gyfrifol am y sector Addysg Bellach, felly yr oedd y gwahaniaethu rhwng y ddarpariaeth Addysg Bellach ac Addysg Uwch bron â dod i ben. Yr oedd angen rhaglen gymalog o 'dynnu drwodd' o addysg feithrin i Addysg Uwch – byddai'n rhaid i sefydliadau ymdrechu i sicrhau bod y ffiniau rhwng y sectorau'n diflannu. Dylai sefydliadau Addysg Bellach gynnig gwasanaethau'n ddetholus ac mewn partneriaeth â sefydliadau Addysg Uwch. Yr oedd ariannu uniongyrchol i Addysg Bellach yn fwy ffafriol, yn hytrach nag ariannu drwy'r trefniadau masnachfraint presennol.

Cytunodd yr Athro Warner fod y ffiniau rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn dechrau mynd yn niwlog ond nid oedd y ddau sector yn mynd yn un peth. Dywedodd yr Athro Warner fod un pwynt da ac un pwynt drwg, yn ei farn ef, ynghylch niwlio'r ffin Addysg Bellach/Addysg Uwch. Y pwynt da oedd bod cysylltiad ansawdd y sefydliadau Addysg Bellach a oedd yn darparu dysgu Addysg Uwch o dan drefniadau masnachfraint wedi profi'n llwyddiant yng Nghymru. Y pwynt drwg oedd bod perygl y byddai anarchiaeth yn cychwyn yn y sector Addysg Bellach, wrth iddynt gystadlu i dorri i'r farchnad Addysg Uwch. Ychwanegodd yr Athro Mervyn Jones fod argymhellion Addysg Uwch Cymru yn ei bapur (p.4) yn cefnogi'r syniad o glystyrau rhanbarthol gydag angen am gydweithio ffurfiol, a fyddai'n ymateb yn uniongyrchol i gysylltu rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

- Cododd y Pwyllgor fater cyfuniadau dysgu ac ymchwil oddi mewn i'r clystyrau rhanbarthol a gynigid ym mhapur Addysg Uwch Cymru a gofynnodd a ellid rhoi unrhyw enghreifftiau eglurhaol. Dywedodd yr Athro y byddai'r clystyrau a gynigid gan Addysg Uwch Cymru yn rhai daearyddol yn bennaf ond nid yn gyfan gwbl felly.
- Cododd yr Aelodau'r mater o ba un a fyddai clystyrau'n mwyhau cynnydd myfyrwyr. Dywedodd yr Athro Warner y byddai clystyrau'n hwyluso cynnydd myfyrwyr, yn achos llawer o fyfyrwyr. Er enghraifft, yr oedd Coleg Abertawe, Coleg Gorseinon ac Athrofa Abertawe wedi cychwyn trefniant tairochrog i ddarparu cymhwyster diploma genedlaethol uwch mewn Dawns.
- Bu rhywfaint o drafodaeth ar fater rhanbartholi ELWa. Hysbysodd yr Athro Warner y Pwyllgor y byddai'n argymell rhoi'r mater hwn ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Addysg Uwch Cymru (5 Ebrill 2001) i'w drafod ar frys.
- Gofynnodd y Cadeirydd sut yr ymgorfforid haenau eraill yn y fframwaith arfaethedig hwn, os sefydlid clystyrau rhanbarthol, er enghraifft, y prifysgolion h^yn fel Caerdydd, Aberystwyth a Bangor? Hefyd, pwy a hwylusai'r cydweithio ar sail Cymru gyfan? Atebodd yr Athro Warner y byddai angen sefydlu strwythur cyffredinol, er mwyn hwyluso cydweithio ar sail Cymru gyfan, gyda'r holl sefydliadau'n cynnig yr un radd. Dywedodd yr Athro Warner y câi ei yrru gan y galluoedd ymchwil presennol rhwng ac oddi mewn i glystyrau. Byddai gwaith rhwng clystyrau yr un mor bwysig â gwaith oddi mewn i glystyrau. Ychwanegodd yr Athro Irvine y byddai'n bwysig

cynnal amrywiaeth rhwng sefydliadau sydd yn seiliedig ar wybodaeth a rhai sydd yn seiliedig ar fedrau.

**Eitem Dau: Adolygiad Polisi - Addysg Uwch - Trafodaeth Thema Allweddol - Adfywio Economaidd a Diwylliannol - Cyflwyniadau gan Syr David Rowe-Beddoe a'r Athro Robin Williams ar ran Addysg Uwch Cymru.**

***Papur: ELL 07-01(p.3) a (p.4)***

2.1 Gyda Syr David Rowe-Beddoe, Cadeirydd y WDA, yr oedd Dr Virginia Chambers, Cyfarwyddwr Datblygu Technoleg ac Arloesedd a Steve Hill, y Prif Gynghorydd Economaidd. Cyfeiriodd Syr David Rowe-Beddoe at ei bapur a gellir gweld copi o'i gyflwyniad PowerPoint yn Atodiad A. Cyfeiriodd yr Athro Robin Williams, Is-ganghellor Prifysgol Cymru, Abertawe at ei bapur hefyd.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod pa rwystrau a oedd yn atal mwyhau cyfraniad Addysg Uwch i adfywio diwylliannol a chymdeithasol-economaidd yng Nghymru a pha fentrau penodol y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol eu mabwysiadu i hybu'r nodau hyn. Hysbysodd Syr David Rowe-Beddoe y Pwyllgor fod strwythur rhanedig Addysg Uwch yng Nghymru'n rhwystro mwyhau. Yr oedd angen mwy o gydweithio a chydweithredu rhwng adrannau a sefydliadau. Hefyd, dylai mentrau gymryd i ystyriaeth anghenion prifysgolion a busnesau. Dylid hefyd hybu mwy o gydweithredu â busnesau bach a chanolig eu maint. Yr oedd tua £10 miliwn o gyllideb y WDA ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol wedi'i ddefnyddio i weithio gyda sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y £10 miliwn hwn yn ychwanegol at gyllid i'r Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth. Cadarnhaodd Syr David Rowe-Beddoe mai cyllid ychwanegol oedd hwn a dywedodd y gallai'r WDA wario mwy ond bod rhaid iddo bennu blaenoriaethau yn ei wariant.
- Cododd yr Aelodau y mater o ba un a oedd cynlluniau gan y WDA, yng ngoleuni'r rhaniad yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru, i ganoli prosiectau ledled Cymru. Atebodd Syr David Rowe-Beddoe y gellid mynd â mentrau a rhaglenni sydd wedi'u seilio a'u datblygu mewn prifysgolion ledled Cymru. Yr oedd bwriad i ymestyn y prosiect Technium a oedd wedi'i leoli yn Abertawe, ledled Cymru.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut y gallai diwydiant/masnach helpu Addysg Uwch i gynhyrchu graddedigion yr oedd ar Gymru eu hangen gyda'r mathau a'r lefelau medrau iawn. Atebodd Syr David Rowe-Beddoe fod angen datblygu medrau mewn rheolaeth a menter. Ychwanegodd Steve Hill fod llawer o gynlluniau da ar waith. Fodd bynnag, yr oedd yn anodd cael strategaeth Cymru gyfan pan oedd llawer o wahanol sefydliadau a phob un â'i agenda ei hun. Yr oedd yn holl bwysig cael dull gweithredu cyson ledled Cymru.
- Gofynnodd y Cadeirydd sut y gellid trosglwyddo cyllid "Y Drydedd Genhadaeth" yn effeithiol. Dywedodd yr Athro Williams na ddylid dargyfeirio cyllidebau dysgu ac ymchwil i ariannu prosiectau'r Drydedd Genhadaeth. Dywedodd yr Athro Williams fod angen cael un corff i gyd-drefnu'r cyllid hwn a'r dull o'i drosglwyddo. Dylai hynny weithio'n gydnaws â'r gwahanol sefydliadau Addysg Uwch, nad oedd yn digwydd bob amser o dan y trefniadau presennol. Dywedodd Syr David Rowe-Beddoe fod angen newid y diwylliant i annog sefydliadau Addysg Uwch i ddechrau gweithgareddau'r Drydedd Genhadaeth gyda busnesau yng Nghymru. Cyfeiriodd Dr Chambers at lwyddiant y rhaglen Canolfannau Rhagoriaeth, a oedd wedi ariannu

chwe rheolwr masnachol i weithio gyda sefydliadau Addysg Uwch a bod hyn wedi'i gynyddu'n ddiweddar yn 20 o reolwyr.

- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch pa fesurau y gallai'r sector Addysg Uwch a diwydiant eu datblygu er mwyn creu diwylliant o ddysgu gydol oes yn ei weithlu. Cydnabu'r Athro Williams fod ariannu'r Drydedd Genhadaeth (menter) o natur dymor byr a rhanedig ar hyn o bryd. Yr oedd Addysg Uwch Cymru'n rhagweld un corff a fyddai'n sicrhau darpariaeth o ariannu tymor hir ar gyfer gweithgareddau ymchwil, dysgu ac adfywio. Yr oedd Addysg Uwch Cymru hefyd yn gobeithio y câi dysgu gydol oes ei gynnwys yng nghenadaethau'r sefydliadau; byddai'r model rhanbarthol a gynigid gan Addysg Uwch Cymru'n darparu ar gyfer cydweithio. Cytunodd Syr David Rowe-Beddoe fod angen cydweithio agosach o lawer rhwng sefydliadau.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut y gallai Cymru gadw ei myfyrwyr gorau a mwyaf disglair a gofynasant am farn y siaradwyr ar y cynigion a gyflwynwyd gan Dylan Jones-Evans mewn perthynas â phrifysgolion entrepreneuraidd (gellir gweld hyn yn p.4, Atodiad 1). Dadleuodd yr Athro Williams fod angen datblygu amrediad o gynlluniau i gymell myfyrwyr i ddychwelyd i Gymru ac ymuno â chwmnïau a leolir yng Nghymru, gan ddod â'u gwybodaeth a'u harbenigedd i ddiwydiant/y sector Addysg Uwch. Ychwanegodd Syr David Rowe-Beddoe y byddai myfyrwyr/graddedigion yn cael cyfle i wneud hyn yn sgil sefydlu'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth gan y WDA y dyrannwyd tua £230 miliwn iddo; hefyd, byddai'r prosiect Technium yn hybu gosod llinellau tanysgrifio digidol anghymesur.
- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch pa lefel o gyllid yr oedd ei hangen ar gyfer gweithgareddau adfywio ac a fyddai hyn yn ffynhonnell arian newydd. Eglurodd yr Athro Williams fod Addysg Uwch Cymru'n croesawu Menter Cronfa Ymelwa ar Wybodaeth y WDA. Fodd bynnag, yr oedd yn holl bwysig ariannu a chefnogi ymchwil rheng flaen. Byddai'n rhaid i gwmnïau fod yn gefnogol i sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru hefyd.
- Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos bod y WDA fel asiantaeth yn gweld posibiliadau mawr iawn ar gyfer datblygu economaidd mewn Addysg Uwch ac ailstrwythuro Addysg Uwch a chreu anogaethau a mecanweithiau newydd ar ôl hynny.

**Eitem Tri: Y Flaenraglen Waith**

***Papur: ELL 07-01(p.5) papur eglurhaol ac ELL 07-01(p.5) Atodiad A***

3.1 Asesodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer Tymor yr Haf.

3.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Awgrymodd y Cadeirydd mai buddiol fyddai cael sesiwn caeedig pan fyddai'r Athro Les Hobson, y Cynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor ar gyfer yr Adolygiad o Addysg Uwch yn rhoi ei gyflwyniad i'r Pwyllgor ar 23 Mai 2001. Byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle i'r Aelodau holi'r Athro Hobson. Cwestiynodd Eleanor Burnham AC yr angen am sesiwn caeedig. Atebodd y Cadeirydd mai amhriodol fyddai holi'r Athro Hobson yn gyhoeddus am nad oedd yn dyst. Derbyniwyd awgrym y Cadeirydd gan y Pwyllgor.
- Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi derbyn llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Rhodri Glyn Thomas AC yn gofyn i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes gyfrannu i Adolygiad nesaf y Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg. Yn benodol, yr oedd y Pwyllgor Diwylliant wedi gofyn am gyfraniad ar y ddarpariaeth o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd

perthnasol y Pwyllgor Diwylliant, os dymunent. Ni fyddai'r prosiect posibl hwn yn effeithio ar y Flaenraglen Waith bresennol a oedd o dan ystyriaeth yn y cyfarfod hwn. Os penderfynai'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ymgymryd â'r adolygiad hwn, byddai'r gwaith yn dechrau ar ôl yr Adolygiad o Addysg Uwch yn Nhachwedd 2001. Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor ei bod yn cefnogi'n gryf y dylai'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes gymryd rhan yn yr Adolygiad o'r Iaith Gymraeg. Cytunodd y Pwyllgor a dywedodd y Cadeirydd wrth derfynu y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor benderfynu ar y cylch gwaith, hyd yr Adolygiad a pha bryd yn union y byddai'n dechrau.

- Gofynnodd y Gweinidog am gynnwys eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 9 Mai i gyflwyno gwaith y bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n ymgymryd ag ef gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddadansoddi gwybodaeth cyllido ysgolion am 2000-01.
- Cododd Huw Lewis AC y mater bod cytundeb y byddai'r Pwyllgor yn adolygu'r cynnydd ar weithredu adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cytunwyd y byddai'r Gweinidog yn ymdrin â'r mater hwn yn ei Hadroddiad i'r Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2001.
- Nododd y Cadeirydd fod yr Aelodau i fod i hysbysu'r Cadeirydd gyda hyn os dymunent i'r Gweinidog ymdrin â materion penodol yn yr adroddiad Gweinidogol nesaf.
- Yr oedd rhai o'r Aelodau'n bryderus ynghylch amseriad yr ymweliad ymchwiliol arfaethedig â llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Yr oedd rhai o'r Aelodau'n bryderus y gallai wrthdaro â'r Etholiad Cyffredinol, a oedd wedi'i osod yn betrus ar gyfer 7 Mehefin 2001. Dadleuodd Aelodau eraill y dylai'r Cynulliad barhau â'i fusnes fel arfer. Dadleuodd y Gweinidog na allai'r Pwyllgor ohirio busnes a oedd yn rhan annatod o'r Adolygiad o Addysg Uwch oherwydd dyddiad tybedig ar gyfer Etholiad Cyffredinol ac mai lle Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor oedd cydgysylltu â chymheiriaid y Cynulliad Cenedlaethol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn darganfod dyddiad a oedd yn gyfleus iddynt. Cydnabu'r Cadeirydd mai bwriad yr ymweliad hwn oedd cynorthwyo'r Pwyllgor yng nghamau Gwerthuso'r Adolygiad. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r Clerc yn cysylltu â llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon i bennu dyddiad addas o fewn pythefnos cyntaf Mehefin 2001.

**Eitem Pedwar: Cofnodion cyfarfod 21 Mawrth**

***Papur: ELL 06-01(mins)***

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 21 Mawrth. Gofynnodd Pauline Jarman AC am newid adran 'datganiadau o fuddiant' y cofnodion i gadarnhau ei bod yn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Papurau i'w Nodi**

**Nododd y Pwyllgor y papurau canlynol:**

**Papur i'w nodi: Adroddiad Interim yr Adolygiad Pum-mlynyddol o Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a ystyriwyd gan y Pwyllgor Diwylliant (28 Mawrth 2001).**

***Papur: ELL 07-01(p.6)***

**Papur i'w nodi: Adroddiad Interim yr Adolygiad Pum-mlynyddol o Fwrdd yr Iaith Gymraeg a ystyriwyd gan y Pwyllgor Diwylliant (28 Mawrth 2001).**

***Papur: ELL 07-01(p.7)***

**Papur i'w nodi: Amserlen sydd yn crynhoi gwahanol faterion yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd a'r rhai yr ymgynghorir arnynt nesaf.**

***Papur: ELL 07-01(p.8)***

Cytunwyd y byddid yn trafod yr ail eitem ar Bapur 8, Dyfodol Tablau Gwybodaeth Perfformiad Ysgolion, yn Adroddiad nesaf y Gweinidog i gyfarfod y Pwyllgor sydd i'w gynnal ar 9 Mai 2001.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2001**

**ATODIAD A**

**Economi Newydd i Gymru: Amlhau Cyfraniad Addysg Uwch**

Syr David Rowe-Beddoe

Cadeirydd, Awdurdod Datblygu Cymru

**Cenhadaeth y WDA**

- **Cynyddu ffyniant ledled Cymru drwy:**
- *Datblygu'r Economi Wybodaeth*
- *Cynyddu E-Fusnes*
- *Cynorthwyo Busnesau yng Nghymru*
- *Denu Busnes Newydd i Gymru*
- *Datblygu Ardaloedd Strategol*

**Gweithgareddau cyfredol Addysg Uwch/y WDA e.e.**

- **Cynlluniau Gweithredu Technoleg/Entrepreneuriaeth Rhanbarthol a Chymdeithas Wybodaeth Cymru**
- **Technium, Canolfannau Rhagoriaeth, rhaglen Spin-out, lleoliadau i raddedigion, a.y.b.**
- **Cymorth i Fusnes yng Nghymru a Busnes sydd yn dod i Gymru**
- **Secondio ac Ymchwil i'r WDA**
- **Aelodau bwrdd y WDA**

**Rôl Addysg Uwch**

- **Yn holl bwysig i'r Economi Wybodaeth**
- **Datblygu Mantais Gystadleuol drwy Wybodaeth**
- **Creu a throsglwyddo medrau ac agweddau**
- **Swyddi Uniongyrchol ac Anuniongyrchol, Trosiant ac Allforion**
- **Delwedd Cymru**

**Materion**

- **Cydnabod y cyfraniad i'r economi**
- **Rhaniad a màs critigol**
- **Rhoi sylw i anghenion busnes**
- **Anogaethau a chyfleoedd**
- **Yr angen am ymagwedd Cymru gyfan at fasnacheiddio**

**Camau Gweithredu**

- **Datblygu gwobrwyon ac anogaethau**
- **Cynyddu'r cydweithio rhwng adrannau a sefydliadau**
- **Gweithio gyda chyrff Cymorth Busnes i ddynodi a rhoi sylw i anghenion busnes**
- **Gweithio gyda'r WDA i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Masnacheiddio Cymru Gyfan**

**Casgliadau**

- **Mae Addysg Uwch yn holl bwysig i lwyddiant economi Cymru yn y dyfodol**
- **Heriau a chyfleoedd newydd, yn cynnwys arweinyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol**
- **Mae'r WDA wedi ymrwymo i weithio gydag Addysg Uwch i fwyhau ein heffaith ar y cyd**

**Atodiad B**

**Pwyntiau Gweithredu**

1. Y Clerc i ddiweddaru’r Flaenraglen Waith Strategol a pharatoi adroddiad ar waith y Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 9.9. Yr adroddiad ar gynnydd a’r Flaenraglen Waith i’w cymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Mai a’u trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Mai.
2. Newid cofnodion ELL 06-01 (21 Mawrth) i nodi bod Pauline Jarman AC yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
3. Newid yr agenda ar gyfer cyfarfod ELL 08-01 (9 Mai) i gynnwys yr adroddiad ar gynnydd a’r Flaenraglen Waith i’w cymeradwyo. Hefyd, rhoi lle i’r Gweinidog adrodd ar waith y Cynulliad Cenedlaethol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddadansoddi gwybodaeth cyllido ysgolion am 2000-01.
4. Cynnwys eitem ar yr agenda ar gyfer 11 Gorffennaf - Adroddiad y Gweinidog - i adolygu’r cynnydd ar weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
5. Y Clerc i ystyried cwmpas ac amseriad cyfraniad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2001**